



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd Adroddiad Asesu Cynllun - Mawrth 2016

M4 Corridor around Newport Scheme Assessment Report - March 2016



CYFLWYNIAD	1	INTRODUCTION	1
CEFNDIR A'R ANGEN AM Y CYNLLUN	2	BACKGROUND AND NEED FOR THE SCHEME	3
YR AMODAU PRESENNOL	3	EXISTING CONDITIONS	8
NODAU AC AMCANION	4	AIMS AND OBJECTIVES	13
DEWISIADAU AMGEN A YSTYRIWYD	5	ALTERNATIVES CONSIDERED	15
CYNLLUN ARFAETHEDIG	6	PROPOSED SCHEME	18
AMCANGYFRIF O'R COSTAU	7	COST ESTIMATE	31
TRAFFIG	8	TRAFFIC	32
GWERTH AM ARIAN	9	VALUE FOR MONEY	33
BETH SY'N DIGWYDD NESAF?	10	WHAT HAPPENS NEXT?	35

ISBN: 978-1-4734-6066-9

Rhif Llywodraeth Cymru: WG28204

© Crown Copyright

ISBN: 978-1-4734-6066-9

Welsh Government Ref No: WG28204

© Crown Copyright



Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am ffyrdd arbennig (gan gynnwys traffyrdd) a chefnffyrdd yng Nghymru. Mae amseroedd teithio annibynadwy a thagfeydd traffig, yn enwedig yn ystod oriau brig, yn digwydd yn aml ar yr M4 o amgylch Casnewydd. Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau, mae Gweinidogion Cymru yn cynnig prosiect Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd (y "Cynllun"), sy'n cynnwys y canlynol:

- a. Rhan newydd o draffordd rhwng Cyffyrdd 23 a 29 i'r de o Gasnewydd; ynghyd â
- b. Mesurau ategol, gan gynnwys:
 - i. Gwelliannau i ddiogelwch, trefniadau mynediad a'n gallu i reoli traffig drwy ailddosbarthu llwybr presennol yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach yn gefnffordd;
 - ii. Ffordd liniaru i Gyffordd 23A, y rhwydwaith ffyrdd lleol a mynediad i'r cyfleusterau parcio a theithio arfaethedig wrth orsaf reilffordd Cyffordd Twnnel Hafren â chysylltiad M4/M48/B4245 newydd;
 - iii. Darparu seilwaith seiclo a cherdded.

Mae'r ddogfen hon yn Adroddiad Asesu Cynllun (yr "Adroddiad"), sy'n disgrifio'r cynigion mewn iaith annhechnegol, gan ganolbwyntio ar yr agweddau hynny nad ydynt yn ymwneud â'r amgylchedd. Esbonnir hanes y Cynllun, y cefndir i'r broses dewis llwybr a'r dewisiadau amgen a ystyriwyd.

Nid yw'r Adroddiad hwn yn ymdrin ag agweddau amgylcheddol ar y Cynllun yn fanwl, a ddarperir yn hytrach mewn Datganiad Amgylcheddol (y "DA"). Mae'r DA yn nodi prif effeithiau amgylcheddol y Cynllun ac yn disgrifio'r mesurau arfaethedig i osgoi, unioni neu leihau'r effeithiau a gwella'r amgylchedd lle y bo'n ymarferol. Mae Crynodeb Annhechnegol (yr "CA") sy'n disgrifio'r DA mewn iaith glir hefyd ar gael. Dylid darllen yr Adroddiad hwn ar y cyd â'r CA.

The Welsh Ministers are responsible for special roads (including motorways) and trunk roads in Wales. Unreliable journey times and traffic congestion, particularly during peak times, are common occurrences on the M4 around Newport. In order to address the problems, the Welsh Ministers propose the M4 Corridor around Newport project (the "Scheme"), comprising:

- a. A new section of motorway between Junctions 23 and 29 south of Newport; alongside
- b. Complementary Measures, including:
 - i. Improvements to safety, access arrangements and our ability to manage traffic by reclassifying the existing M4 between Magor and Castleton as a trunk road;
 - ii. Relief to Junction 23A, the local road network and access to the proposed park and ride facilities at Severn Tunnel junction railway station with a new M4/M48/B4245 connection; and
 - iii. Providing cycle and walking friendly infrastructure.

This document is a Scheme Assessment Report (the "SAR"), which describes the proposals in non-technical language, focusing on the non-environmental aspects. The history of the Scheme, background to route selection and alternatives considered are explained.

This SAR does not cover in detail the environmental aspects of the Scheme, which are instead provided in an Environmental Statement (the "ES"). The ES identifies the main environmental effects of the Scheme and describes the proposed measures to avoid remedy or reduce effects and provide environmental enhancement where practicable. A Non-Technical Summary (the "NTS") is also available which describes the ES in plain language. This SAR should be read alongside the NTS.

Mae'r Adroddiad hwn hefyd yn ategu'r 'Gorchmynion Statudol drafft' a gyhoeddwyd ar gyfer y Cynllun, sy'n nodi'r tir y byddai ei angen er mwyn adeiladu a cynnal y Cynllun a'r gwaith lliniaru amgylcheddol a fyddai'n gysylltiedig â hynny. Mae pum Gorchmyn Statudol drafft, sef:

1. Cynllun Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) 201-
2. Gorchmyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i'r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach) 201-
3. Cynllun Traffordd yr M4 (Man i'r Gorllewin o Fagwyr i Fan i'r Dwyrain o Gas-bach) a Thraffordd yr A48(M) (Man i'r Gorllewin o Gas-bach i Laneirwg) (Amrywio Amrywiol Gynlluniau) 201-
4. Gorchmyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) a Chefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i'r Dwyrain O Fagwyr i Gas-bach) (Ffyrdd Ymyl) 201-
5. Gorchmyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffyrdd Cysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) a Chefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i'r Dwyrain o Fagwyr i Gas-bach)) 201-

Bwriedir cyhoeddi'r Gorchmyn Prynu Gorfodol ar 24 Mawrth 2016. Cyhoeddir y Gorchmynion drafft eraill ar 10 Mawrth 2016.


This SAR also accompanies the 'draft Statutory Orders' published for the Scheme, which set out the land that would be required to build and maintain the Scheme and the environmental mitigation work that would be involved. There are five draft Statutory Orders:

1. The M4 Motorway (Junction 23 (East of Magor) to West of Junction 29 (Castleton) and Connecting Roads) and The M48 Motorway (Junction 23 (East of Magor) Connecting Road) Scheme 201-
2. The London to Fishguard Trunk Road (East of Magor to Castleton) Order 201-
3. The M4 motorway (West of Magor to East of Castleton) and the A48(M) Motorway (West of Castleton to St Mellons) (Variation of Various Schemes) Scheme 201-
4. The M4 Motorway Junction 23 (East of Magor) to West of Junction 29 (Castleton) and Connecting Roads) and the M48 motorway Junction 23 (East of Magor) Connecting Road) and the London to Fishguard Trunk Road (East of Magor to Castleton) (Side Roads) Order 201-
5. The Welsh Ministers (The M4 Motorway (Junction 23 (East of Magor) to West of Junction 29 (Castleton) and Connecting Roads) and the M48 motorway (Junction 23 (East of Magor) connecting road) and the London to Fishguard Trunk Road (East of Magor to Castleton) Compulsory Purchase Order 201-

The draft Compulsory Purchase Order is to be published on 24 March 2016. The other draft Orders listed above are published on 10 March 2016.

Mae'r M4 o amgylch Casnewydd yn llwybr o bwys strategol ar lefel genedlaethol, rhanbarthol, lleol a rhyngwladol, sy'n cysylltu de a gorllewin Cymru â de-orllewin Lloegr ac mae'n rhan o lwybrau strategol i Iwerddon, Canolbarth Lloegr, de-ddwyrain Lloegr ac ymhellach i gyfandir Ewrop.

The M4 around Newport is a route of strategic importance at national, regional, local and international levels, linking south and west Wales to the south west of England and forms part of strategic routes to Ireland, the Midlands, the south east of England and further to continental Europe.



Map yn dangos yr M4 presennol
yng Nghymru

Map showing the existing
M4 in Wales

Mae'r M4 yn hollbwysig i economi Cymru. Mae'n rhan o'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd ac yn borth i Gymru, gan gludo pobl a nwyddau i gartrefi, diwydiant a chyflogaeth. Mae'n rhoi mynediad i borthladdoedd a meysydd awyr ac yn gwasanaethu diwydiant twristiaeth Cymru.

The M4 is critical to the Welsh economy. It forms part of the Trans European Transport Network and is the gateway to Wales, transporting people and goods to homes, industry and employment. It provides access to ports and airports and serves the Welsh tourism industry.

Fodd bynnag, ers blynnyddoedd lawer, mae tagfeydd traffig wedi bod yn brofiad cyffredin i'r rhai sy'n defnyddio llwybr presennol yr M4 o amgylch Casnewydd ac sy'n byw yn yr ardal. Mae amseroedd teithio yn aml yn annibynadwy, gan ei gwneud hi'n anodd manteisio ar gyfleoedd swyddi neu ddefnyddio gwasanaethau gan gynnwys addysg. Mae a wnelo'r problemau ar draffordd bresennol yr M4 o amgylch Casnewydd â chapasiti, y gallu i wrthsefyll, diogelwch a materion datblygu cynaliadwy. Disgwylir i'r problemau hyn waethgu.

However, for many years, traffic congestion has been a fact of life for those using the existing M4 around Newport and living in the area. Journey times are often unreliable, making it more difficult to access job opportunities or services including education. Problems on the existing M4 around Newport relate to capacity, resilience, safety and issues of sustainable development. These problems are expected to get worse.

Mae'r problemau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth o amgylch Casnewydd yn rhwystro buddsoddiad busnes ac mae Llywodraeth Cymru yn anelu at ddarparu system drafnidiaeth sy'n gwella cystadleurwydd Cymru ac yn annog swyddi a thwf.

O ran yr amgylchedd, mae awdurdodau lleol yn y DU yn gweithio tuag at gyflawni amcanion ansawdd aer cenedlaethol. Os bydd awdurdod lleol yn dod o hyd i unrhyw fan lle nad yw'r amcanion yn debygol o gael eu cyflawni, rhaid iddo ddatgan Ardal Rheoli Ansawdd Mae gan Gasnewydd saith o'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer hyn ac mae pedair yn gysylltiedig â llwybr presennol yr M4.

The transport related problems around Newport discourage business investment and the Welsh Government aims to provide a transport system that improves Wales' economic competitiveness and encourage jobs and growth.

In terms of the environment, local authorities in the UK work towards meeting national air quality objectives. If a local authority finds any places where the objectives are not likely to be met, it must declare an Air Quality Management Area (AQMA) Newport has seven of these (AQMAs) and four are associated with the existing M4.



M4 presennol o amgylch Casnewydd

Existing M4 around Newport

Mae'r twf mewn traffig ar hyd traffordd bresennol yr M4 o amgylch Casnewydd hefyd yn gwaethygu llygredd sŵn, gan effeithio ar gymunedau preswyl cyfagos. Mae gan Gasnewydd amrywiaeth o Ardaloedd Blaenoriaeth o ran Cynllunio Camau Gweithredu i Fynd i'r Afael â Sŵn, gan gynnwys ar hyd yr M4.

Ers dechrau'r 1990au, mae cryn dipyn o waith asesu ac ymgynghori wedi'i wneud i ddatblygu ateb a ffeirir i broblemau trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â'r M4 o amgylch Casnewydd.

Traffic growth along the existing M4 around Newport has also contributed to noise pollution, affecting neighbouring residential communities. Newport has various designated Noise Action Planning Priority Areas (NAPPAs) including along the M4.

Since the early 1990s, much assessment and consultation has been undertaken to develop a preferred solution to the transport related problems associated with the M4 around Newport.

Ym mis Mawrth 1989, comisiynodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd Astudiaeth o Draffig Ardal De Cymru (SWATS) i adolygu patrymau traffig dros ran o'r rhwydwaith cefnffyrdd yn y de er mwyn nodi ardaloedd lle ceid problemau a chynnig atebion posibl. Nododd Adroddiad SWATS (1990) yr angen am welliant sylweddol i'r M4 er mwyn mynd i'r afael â phroblem gynyddol o ran capasiti ar y draffordd, yn enwedig y rhan rhwng Magwyr a Chas-bach.

Yn sgil ymgynghoriad yn 1993 a 1994, cyhoeddwyd Llwybr a Ffefrir ar gyfer Ffordd Liniaru'r M4 gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd ar 12 Gorffennaf 1995. Cyhoeddwyd Hysbysiad TR111 ar yr un diwrnod hefyd. a ddiogelodd goridor at ddibenion cynllunio. Cyhoeddwyd Hysbysiad TR111 diwygiedig yn 1997 i ystyried datblygiadau lleol o bwys.

Rhwng 1997 a 2006, cynhaliwyd astudiaethau i ystyried opsiynau eraill megis gwella trafnidiaeth gyhoeddus ac arweiniodd adolygiad cynhwysfawr o lwybrau at gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig bellach o Hysbysiad TR111 yn 2006. Roedd y llwybr diwygiedig yn ystyried deddfwriaeth amgylcheddol a wnaeth fesurau i ddiogelu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau) yn gryfach, ymhlith cyfyngiadau eraill.

Yn 2009, cyhoeddwyd nad oedd y Cynllun a oedd yn dilyn y Llwybr a Ffafiwyd yn fforddiadwy gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru ar y pryd. Yn lle hynny, sefydlwyd rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 i ystyried a datrys problemau o ran capasiti, diogelwch a chydnerthedd ar hyd coridor yr M4 yn neddwyrain Cymru.

Fel rhan o Raglen Mesurau Gwella Coridor yr M4, lansiwyd proses ymgysylltu gynhwysfwr ym mis Medi 2010 a arweiniodd at ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd ar opsiynau gwahanol a'u hasesiadau cysylltiedig, rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2012.

Arweiniodd yr ymgynghoriad at gefnogaeth y cyhoedd i ddarparu ffordd ychwanegol o safon uchel i'r de o Gasnewydd, ynghyd â mesurau ychwanegol.

In March 1989, the then Secretary of State for Wales commissioned the South Wales Area Traffic Study (SWATS) to review traffic patterns over part of the trunk road network in South Wales in order to identify problem areas and propose possible solutions. The SWATS Report (1990) identified the need for substantial improvement to the M4 to address a growing capacity issue on the motorway, in particular the section between Magor and Castleton.

Following consultation in 1993 and 1994, a Preferred Route for an M4 Relief Road was announced by the then Secretary of State for Wales, on 12 July 1995. A TR111 Notice was also published on the same day, which protected a corridor for planning purposes. A revised TR111 Notice was published in 1997 to take into account local developments of importance.

Between 1997 and 2006, studies were undertaken to consider other options such as public transport improvements, and a comprehensive route review led to a further revised TR111 Notice being published in 2006. The modified route took into account environmental legislation that increased the protection of Sites of Special Scientific Interest (SSSIs) amongst other constraints.

In 2009 the Scheme following the Preferred Route was pronounced not to be affordable by the then Deputy First Minister. Instead, the M4 Corridor Enhancement Measures (CEM) programme was set up to explore and resolve issues of capacity, safety and resilience along the M4 corridor in south east Wales.

As part of the M4 Corridor Enhancement Measures (CEM) Programme, a comprehensive engagement process was launched in September 2010 culminating in a public consultation held on different options and their associated assessments, between March and July 2012.

The consultation resulted in public support for the provision of an additional high quality road to the south of Newport, supported by additional measures.

Drwy fentrau, gan gynnwys trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EM/Adran Drafndiaeth, crëwyd cyfleoedd ariannu posibl ar gyfer prosiectau seilwaith Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, penderfynodd Llywodraeth Cymru ailystyried atebion i ddatrys y problemau o ran trafndiaeth ar draffordd yr M4 o amgylch Casnewydd.

Cafodd yr opsiynau, a oedd yn cynnwys opsiynau Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4, opsiynau traffordd a mesurau cyflenwol, eu harfarnu ymhellach. Daeth yr arfarniad i'r casgliad y dylid datblygu rhan newydd o draffordd tair lôn i'r de o Gasnewydd, yn ogystal â mesurau cyflenwol.

Daeth yr opsiynau hyn yn sail wedyn dros ddatblygu'r Asesiad Amgylcheddol Strategol drafft o'r Cynllun a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus arno rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2013. Gan ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a'i asesiadau cysylltiedig, penderfynodd Llywodraeth Cymru fabwysiadu 'Y Cynllun' ym mis Gorffennaf 2014. Cyhoeddwyd Hysbysiad TR111 diwygiedig ym mis Gorffennaf 2014 i ddiogelu llwybr diwygiedig a ffefrir ar gyfer rhan newydd o'r draffordd i'r de o Gasnewydd. Dangosir yr aliniad yn ei gyd-destun ehangach yn Ffigur 2.

Ystyrir mai prosiect Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd yw'r ateb cynaliadwy, hirdymor i'r problemau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sy'n gysylltiedig â'r brif ffordd i mewn i Dde Cymru.

Byddai'r Cynllun yn gwella hygyrchedd i bobl yn ogystal â nwyddau a gwasanaethau o Gymru i farchnadoedd mewnwladol a rhyngwladol.

Hyrwyddir y cynigion ar gyfer Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd gan Lywodraeth Cymru fel rhan bwysig o'i Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru sydd wedi pennu cyfeiriad clir ar gyfer buddsoddi cyfalaf yng Nghymru sy'n cefnogi twf a swyddi.

Initiatives, including discussions between the Welsh Government and HM Treasury/ Department for Transport, created potential funding opportunities for Welsh Government infrastructure projects. As a consequence, the decision was taken by the Welsh Government to further reconsider solutions to resolve the transport related problems on the M4 around Newport.

Further appraisal was undertaken of options that included M4 CEM options, motorway options, and complementary measures. The appraisal concluded that a new section of 3-lane motorway to the south of Newport, in addition to complementary measures, should be progressed.

These options subsequently formed the basis for the development of the draft Plan and Strategic Environmental Assessment, which was subject to public consultation between September and December 2013. Taking responses to the consultation and its associated assessments into account, the Welsh Government decided to adopt 'The Plan' in July 2014. A revised TR111 Notice was published in July 2014 to protect a modified preferred route for a new section of motorway to the south of Newport.

The M4 Corridor around Newport project is considered to be the sustainable, long term solution to the social, environmental and economic problems associated with the main gateway into South Wales.

The Scheme would improve accessibility for people as well as Welsh goods and services to domestic and international markets.

The proposals for the M4 Corridor around Newport are promoted by the Welsh Government as an important part of its Wales Infrastructure Investment Plan (WIIP) which has set a clear direction for capital investment in Wales that supports growth and jobs.

Mae'r cyhoedd wedi cael ei gynnwys yn y broses o ddatblygu'r cynigion presennol drwy gyfres o Arddangosfeydd o Wybodaeth i'r Cyhoedd yn ystod mis Medi 2015, wedi'i hategu gan gyfryngau gan gynnwys cylchlythyrau, hysbysebion ar y radio a gwefan y Cynllun.

Cysylltwyd ag Awdurdodau Cynllunio Lleol a Chyrff Amgylcheddol Statudol wrth ddatblygu'r cynigion. Er enghraifft, mae ardaloedd trin dŵr a thir adeiladu dros dro wedi cael eu haddasu yn ystod y broses ddatblygu mewn ymateb i'w sylwadau ac er mwyn bodloni eu gofynion.

Ymwelwyd â pherchnogion tir a phobl y byddai'r Cynllun yn effeithio ar eu heiddo neu eu ffyrdd mynediad preifat neu fe'u hysbyswyd o'r cynigion a chawsant gyfle i wneud sylwadau ar y broses o ddatblygu'r cynigion a, lle y bo'n ymarferol, mae eu sylwadau wedi'u hystyried.

The public have been engaged in the development of the current proposals by a series of Public Information Exhibitions during September 2015, supported by media including newsletters, radio advertising and a Scheme website.

Local Planning Authorities and Statutory Environmental Bodies have been liaised with during the development of the proposals. For example, water treatment areas and temporary land for construction have been adjusted during development to accommodate their requirements.

Landowners and persons whose properties or private accesses would be directly affected by the Scheme have been visited or made aware of the proposals and had the opportunity to comment on the development of the proposals and where practicable their representations have been taken into account.



Arddangosfa Gwybodaeth i'r Cyhoedd, Medi 2015

Public Information Exhibition, September 2015

Mae amseroedd teithio annibynadwy a thagfeydd traffig, yn enwedig yn ystod oriau brig, yn digwydd yn aml ar yr M4 o amgylch Casnewydd. Mae hyn oherwydd diffyg capasiti a ffyrdd amgen, yn enwedig yn ystod digwyddiadau a damweiniau. Disgwylir i'r lefel o dagfeydd gynyddu.

Cynlluniwyd yr M4 rhwng Cyffyrdd 28 a 24 yn wreiddiol fel 'Ffordd Osgoi Casnewydd' yn y 1960au.

Nid yw traffordd bresennol yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach yn cyrraedd safonau dylunio traffyrdd modern ac mae mwy o draffig yn ei defnyddio na'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol.

Mae gan rai rhannau o'r draffordd aliniadau (llethrau a throeon) nad ydynt yn cyrraedd y safonau presennol ar gyfer traffyrdd ac mewn mannau nid oes llain galed. At hynny, ceir cyffyrdd rheolaidd, sy'n arwain at lawer o symudiadau igam-ogam gyda cherbydau yn cyflymu, yn arafu ac yn newid lôn dros bellter cymharol fyr. Yn olaf, dim ond dwy lôn sydd gan y rhan o'r draffordd sy'n dynesu at dwneli Brynglas ac yn mynd drwyddynt, sy'n gyfyngiad o ran capasiti, yn enwedig yn ystod oriau brig.

Dywed y gymuned fusnes yn Ne Cymru fod tagfeydd ar lwybr presennol yr M4, yn enwedig o amgylch Casnewydd, yn rhwystro twf economaidd. Lle bo tagfeydd yn cynyddu, mae cost trafndiaeth i fusnesau, cymudwyr a defnyddwyr yn cynyddu, sydd yn ei dro yn cael effaith ar ein heconomi. Gall mwy o dagfeydd hefyd arwain at amseroedd teithio hirach i'r gwaith. Mae hyn yn lleihau mynediad at gyfleoedd cyflogaeth.

Capasiti

Traffordd yr M4 rhwng Cyffyrdd 24 a 29 yw'r darn prysuraf o ffordd yng Nghymru ac mae'n ffurfio rhan o lwybrau strategol i dde-orllewin Lloegr, Canolbarth Lloegr a de-ddwyrain Lloegr. Ceir tagfeydd yn aml ar y rhan hon o'r M4, yn enwedig yn ystod oriau brig yn ystod yr wythnos, sy'n arwain at amseroedd teithio araf ac annibynadwy ac amodau stopio a dechrau,

Unreliable journey times and traffic congestion, particularly during peak times, are common occurrences on the M4 around Newport. This is due to the lack of capacity and alternative routes, especially during incidents and accidents. The level of congestion is expected to increase.

The M4 between Junctions 28 and 24 was originally designed as the 'Newport Bypass' in the 1960s.

The existing M4 motorway between Magor and Castleton does not meet modern motorway design standards and a greater volume of traffic uses it than for which it was originally designed.

Some sections have alignments (gradients and bends) that are below current motorway standards and in places there is no hard shoulder. In addition to this, there are frequent junctions, resulting in many weaving movements with vehicles accelerating, decelerating and changing lanes over relatively short distances. Finally, the section through and on the approaches to the Brynglas tunnels has only got two lanes, which is a capacity constraint, particularly at peak times.

Congestion on the existing M4, particularly around Newport, is cited by the business community in South Wales as a barrier to economic growth. Where congestion increases, the cost of transport for businesses, commuters and consumers which in turn affects our economy. Increased congestion can also result in longer journey times to work. This reduces access to employment opportunities.

Capacity

The M4 motorway between J24 and J29 is the most heavily trafficked section of road in Wales, forming part of strategic routes to the south west, Midlands and the south east of England. This section of the M4 is often congested, especially during weekday peak

ac mae digwyddiadau yn aml yn achosi oedi. Mae rhagamcanion traffig yn dangos y bydd y problemau yn gwaethgu yn y dyfodol.

Mae llif traffig yn methu pan eir y tu hwnt i gapasiti ffordd. O dan yr amgylchiadau hyn bydd amseroedd teithio yn cynyddu, sy'n golygu y bydd amrywioldeb a natur annibynadwy amseroedd teithio yn cynyddu hefyd.

At hynny, pan fydd llif traffig yn methu, mae'n fwy tebygol y bydd digwyddiadau a damweiniau. Mae rhagamcanion o lifoedd cerbydau yn y dyfodol yn awgrymu y byddai achosion o lifoedd traffig yn methu yn dod yn fwy cyffredin erbyn 2022, ac yn fwyfwy cyffredin erbyn 2037 ar rannau o'r draffordd rhwng Cyffyrdd 24 a 29.

Cydnherthedd

Cydnherthedd yw gallu'r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach i fodloni'r galw am deithio pan fydd digwyddiad, heb effeithio'n ormodol ar y teithiwr.

Ar hyn o bryd nid oes gan goridor yr M4 o amgylch Casnewydd fawr ddim cydnherthedd i ddarparu ar gyfer digwyddiadau, megis cerbydau yn mynd ar dân neu'n gwrthdaro.

Mae digwyddiadau yn nhwneli Brynglas yn cael mwy o effaith o gymharu â rhannau eraill o'r rhwydwaith traffyrdd oherwydd yr anawsterau sy'n gysylltiedig â mynediad.

periods, resulting in slow and unreliable journey times, stop-start conditions, and with incidents frequently causing delays. Traffic forecasts show that the problems will worsen in the future.

Traffic flow breakdown occurs when the capacity of a road is exceeded. Under these circumstances journey times increase with the consequential effect that journey time variability and unreliability also increase.

Additionally, during the period of flow breakdown, the likelihood of incidents and accidents increases. Forecasts of future vehicle flows indicate that flow breakdown would become more prevalent by the year 2022, and increasingly so by 2037 on sections between J24 and J29.

Resilience

Resilience is the ability of the wider transport network to accommodate demand for travel when there is an incident, without unduly impacting on the traveller.

The M4 around Newport currently has very little resilience to accommodate incidents, such as vehicle fires or collisions.

Incidents at Brynglas tunnels cause greater impacts than other parts of the motorway network due to the difficulties with access.



Twyneli Brynglas

Brynglas Tunnels

Ymhlith y ffactorau sy'n cyfrannu at y lefel is o gydnerthedd ar gyfer defnyddwyr ffyrdd ar draffordd bresennol yr M4 mae:

- a. Prinder llwybrau trafndiaeth amgen â chapasiti priodol ac o safon briodol.
- b. Mwy o oedi a digwyddiadau ar ffyrdd lleol a achosir gan lifoedd traffig cynyddol pan gânt eu defnyddio fel llwybrau amgen;

Diogelwch

Mae problemau diogelwch ar y ffyrdd ar draffordd bresennol yr M4 yn cynnwys y canlynol:

- a. Cerbydau yn cyflymu, yn arafu ac yn newid lôn dros bellter bach, sy'n arwain at symudiadau igam-ogam a allai fod yn beryglus, er gwaethaf y system Terfyn Cyflymder Newidiol sy'n cael ei chyflwyno gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu i wella diogelwch ar yr M4 rhwng Cyffyrdd 24 a 28.
- b. Mae llethrau a throeon yn fwy serth a thynn na safonau traffyrdd. Ceir mannau lle nad oes llain galed a chyffyrdd rheolaidd rhwng Cyffyrdd 24 (Coldra) a 28 (Parc Tredegar);

Factors contributing to reduced resilience for road users on the existing M4 include:

- a. Limited availability of alternative transport routes with appropriate capacity and standard.
- b. Increases in delays and incidents on local roads resulting from increased traffic flows when they are used as alternative routes;

Safety

Road safety problems on the existing M4 include:

- a. Vehicles speeding up, slowing down and changing lanes over short distances thereby creating weaving movements that are potentially hazardous, despite the Variable Speed Limit system (the "VSL") being introduced by the Welsh Government to help improve safety on the M4 between Junctions 24 and 28.
- b. Gradients and bends are steeper and tighter than motorway standards. There are places where there is no hard shoulder and frequent junctions between J24 (Coldra) and J28 (Tredegar Park);



Terfyn cyflymder newidiol presennol yr M4

Existing M4 variable speed limit



Gwastadeddau Gwent a Gweithfeydd Dur Llanwneryd

Gwent Levels and the Llanwneryd Steelworks

- c. Mae clystyrau gwrthdrawiadau wrth agosáu at Dwneli Brynglas wedi'u nodi, lle y ceir amodau stopio a dechrau yn aml yn ystod oriau brig. Achosir hyn gan y cyfuniad o dagfeydd a'r ffaith bod y draffordd yn mynd o dair lôn i ddwy lôn, ynghyd â llethr serth ar y ffordd ddynesu tua'r gorllewin;
- d. Gall tywydd gwael amharu ar y rhwydwaith trafnidiaeth, a all fod yn waeth o amgylch Casnewydd lle mae'r M4 wedi gweld cyfran uwch na'r cyfartaledd o wrthdrawiadau mewn tywydd gwlyb yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Datblygu cynaliadwy

Mae tagfeydd traffig yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd, cymdeithas a'r economi.

Dywed y gymuned fusnes yn Ne Cymru fod tagfeydd ar lwybr presennol yr M4, yn enwedig o amgylch Casnewydd, yn rhwystro twf economaidd. Lle bo tagfeydd yn cynyddu, mae cost trafnidiaeth i fusnesau, cymudwyr a defnyddwyr yn cynyddu sydd yn ei dro yn cael effaith ar ein heconomi. Gall mwy o dagfeydd hefyd arwain at amseroedd teithio hirach i'r gwaith. Mae hyn yn lleihau mynediad at gyfleoedd cyflogaeth.

- c. Collision clusters on the approaches to the Brynglas tunnels have been identified, where stop-start conditions often occur during peak periods. This is caused by the combination of congestion and the motorway reducing from three to two lanes, together with a steep gradient on the westbound approach; and
- d. Poor weather can cause disruption to the transport network, this can be worse around Newport where the M4 has a higher than average proportion of wet weather collisions in the last three years.

Sustainable development

Traffic congestion adversely impacts on the environment, society and the economy.

Congestion on the existing M4, particularly around Newport, is cited by the business community in South Wales as a barrier to economic growth. Where congestion increases, the cost of transport for businesses, commuters and consumers also increases which in turn affects our economy. Increased congestion can also result in longer journey times to work. This reduces access to employment opportunities.

Yr amgylchedd

Disgrifir yr amodau amgylcheddol presennol yn y DA a'i CA.

Mae trafndiaeth ffordd yn cyfrannu'n sylweddol at allyriadau llygryddion aer.

Mae trigolion Casnewydd sy'n byw'n agos at lwybr presennol yr M4 yn profi ansawdd aer gwael i draffig y draffordd. Allan o saith Ardal Rheoli Ansawdd Aer a ddynodwyd gan Gyngor Dinas Casnewydd, mae pedair yn gysylltiedig â'r M4.

Mae sŵn traffig o'r draffordd hefyd yn broblem i'r rhai sy'n byw gerllaw.

Environment

Existing environmental conditions are described in the ES and its NTS.

Road transport contributes significantly to the emission of air pollutants.

Residents of Newport close to the existing M4 experience poor air quality as a result of motorway traffic. Out of seven AQMAs designated by Newport City Council, four are associated with the M4.

Traffic noise from the motorway is also a problem for those who live nearby.



M4 Cyffordd 25 presennol

Existing M4 Junction 25

Mae'r cynigion hyn yn cefnogi amcanion Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yng Nghynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi 2012, Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru 2015, Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2008 a Diweddariad 2008 o Gynllun Gofodol Cymru: Pobl Lleuedd, Dyfodol.

O ganlyniad i'r ymgynghoriad a gweithdai datblygu blaenorol, nodwyd problemau a phennwyd nodau ac amcanion ar gyfer Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd.

Y nodau yw:

- a. Ei gwneud hi'n haws ac yn fwy diogel i bobl gael mynediad i'w cartrefi, gweithleoedd a gwasanaethau drwy gerdded, seiclo, defnyddio trafndiaeth gyhoeddus neu ar y ffordd;
- b. Darparu rhwydwaith trafndiaeth mwy effeithlon a chynaliadwy sy'n cefnogi ac yn annog ffyniant hirdymor yn y rhanbarth a ledled Cymru, ac yn galluogi mynediad i farchnadoedd rhyngwladol;
- c. Sicrhau bod y prosiect yn cael effeithiau cadarnhaol ar bobl a'r amgylchedd, gan wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at nodau cyffredinol Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwneud Cymru yn fwy gwydn i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

These proposals support the objectives of the Welsh Government as set out in the Wales Infrastructure Investment Plan for Growth and Jobs 2012, Wales National Transport Finance Plan 2015, One Wales: Connecting the Nation, The Wales Transport Strategy 2008 and the People, Places, Future: Wales Spatial Plan 2008 Update.

As a result of consultation and previous development workshops, problems have been identified and aims and objectives have been set for the M4 Corridor around Newport.

The aims are to:

- a. Make it easier and safer for people to access their homes, workplaces and services by walking, cycling, public transport or road;
- b. Deliver a more efficient and sustainable transport network supporting and encouraging long-term prosperity in the region, across Wales, and enabling access to international markets; and
- c. To produce positive effects overall on people and the environment, making a positive contribution to the overarching Welsh Government goals to reduce greenhouse gas emissions and to making Wales more resilient to the effects of climate change.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi 15 o Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth sy'n anelu at fynd i'r afael â'r problemau trafndiaeth a nodwyd. Bwriedir iddynt helpu i sicrhau'r canlynol:

- a. Teithio mwy diogel, haws a mwy dibynadwy o'r dwyrain i'r gorllewin yn Ne Cymru.
- b. Gwell cysylltiadau trafndiaeth o fewn Cymru ac i Loegr, Gweriniaeth Iwerddon a gweddill Ewrop ar gyfer pob dull teithio ar y rhwydwaith trafndiaeth rhyngwladol.
- c. Defnydd mwy effeithiol ac integredig o ddewisiadau amgen i'r M4, gan gynnwys rhannau eraill o'r rhwydwaith trafndiaeth a dulliau eraill o drafndiaeth ar gyfer teithiau lleol a strategol o amgylch Casnewydd.
- d. Defnydd gorau posibl o lwybr presennol yr M4, y rhwydwaith ffyrdd lleol a rhwydweithiau trafndiaeth eraill.
- e. Amseroedd teithio mwy dibynadwy ar hyd Coridor yr M4.
- f. Mwy o ddewis i bawb sy'n teithio ar hyd y Coridor trafndiaeth waeth beth fo'r dull teithio rhwng Magwyr a Chas-bach, yn gymesur â'r galw am ddewisiadau amgen.
- g. Gwell diogelwch ar Goridor yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach.
- h. Gwell ansawdd aer mewn ardaloedd wrth ymyl yr M4 o amgylch Casnewydd.
- i. Llai o darfu ar bobl gan lefelau uchel o sŵn, a achosir gan bob math o ddull trafndiaeth a thraffig ar hyd Coridor yr M4.
- j. Llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr fesul cilometr cerbyd a/neu unigolyn.
- k. Gwell profiad teithio i mewn i Dde Cymru ar hyd Coridor yr M4.
- l. M4 sy'n ddeniadol ar gyfer teithiau strategol sy'n annog llai o ddefnydd gan draffig lleol.
- m. Gwell rheolaeth traffig yng Nghasnewydd ac o'i hamgylch ar hyd Coridor yr M4.
- n. Mynediad haws i wasanaethau allweddol lleol a chanolfannau preswyl a masnachol.
- o. Newid diwylliannol o ran dulliau teithio tuag at ddewisiadau mwy cynaliadwy.

The Welsh Government has identified 15 Transport Planning Objectives which aim to address the identified transport related problems. They are to help achieve:

- a. Safer, easier and more reliable travel east-west in South Wales.
- b. Improved transport connections within Wales and to England, the Republic of Ireland and the rest of Europe on all modes of the international transport network.
- c. More effective and integrated use of alternatives to the M4, including other parts of the transport network and other modes of transport for local and strategic journeys around Newport.
- d. Best possible use of the existing M4, local road network and other transport networks.
- e. More reliable journey times along the M4 Corridor.
- f. Increased level of choice for all people making journeys within the transport Corridor by all modes between Magor and Castleton, commensurate with demand for alternatives.
- g. Improved safety on the M4 Corridor between Magor and Castleton.
- h. Improved air quality in areas next to the M4 around Newport.
- i. Reduced disturbance to people from high noise levels, from all transport modes and traffic within the M4 Corridor.
- j. Reduced greenhouse gas emissions per vehicle and/or person kilometre.
- k. Improved travel experience into South Wales along the M4 Corridor.
- l. An M4 attractive for strategic journeys that discourages local traffic use.
- m. Improved traffic management in and around Newport on the M4 Corridor.
- n. Easier access to local key services and residential and commercial centres.
- o. A cultural shift in travel behaviour towards more sustainable choices.

Mae Pennod 4 o'r DA yn esbonio'n fanwl sut yr ystyriwyd dewisiadau amgen. Mae hefyd yn nodi'r prif resymau dros ddewis elfennau allweddol y Cynllun, gan gynnwys:

- Dewis opsiwn traffordd (yn hytrach nag atebion nad oeddent yn cynnwys adeiladu traffordd);
- Dewis coridor y llwybr yn fras i'r de o Gasnewydd (yn hytrach nag opsiynau amgen ar gyfer llwybrau).
- Dewis yr opsiynau dylunio a gynhwyswyd yn y Gorchmynion Statudol drafft (yn hytrach nag atebion dylunio amgen mewn lleoliadau ar hyd y llwybr).

Wrth ddatblygu'r Cynllun ystyriwyd senario 'Gwneud Cyn Lleied â Phosibl', sy'n golygu peidio â gwneud mwy na'r hyn a gynlluniwyd neu yr ymrwymwyd iddo eisoes. Cadarnhaodd yr ystyriaeth a roddwyd i opsiynau 'Gwneud Dim' neu 'Gwneud Cyn Lleied â Phosibl' fod angen dybryd i wneud rhywbeth i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd sy'n gysylltiedig â'r M4 o amgylch Casnewydd.

Gan ystyried y gwaith asesu blaenorol, nododd Llywodraeth Cymru ran newydd o draffordd i'r de o Gasnewydd (a elwid bryd hynny yn 'Llwybr Du'), ynghyd â Mesurau Ategol, fel ei Chynllun drafft ym mis Medi 2013. Nododd y Cynllun drafft ddau ddewis amgen rhesymol i'r opsiwn hwn, sef: y 'Llwybr Coch' a'r 'Llwybr Porffor'.

Nid oedd opsiwn y Llwybr Coch (ffordd ddeuol) yn cynnwys adeiladu traffordd. Nododd gwaith asesu na pherfformiodd yr opsiwn hwn cystal â'r ddau opsiwn traffordd, oherwydd roedd ganddo lawer llai o gapasiti a byddai'n denu llai o draffig oddi ar yr M4. Daethpwyd i'r casgliad, ar yr amod y gellid darparu cyllid i'w gyflawni fel un prosiect, y byddai opsiwn traffordd yn cynnig gwerth gwell am arian a chyflawni'r amcanion ar gyfer Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd yn well.


The ES Chapter 4 explains in detail how alternatives have been considered. In addition, it sets out the main reasons for the selection of the key elements of the Scheme, including:

- The selection of a motorway option (compared to non-motorway solutions);
- The selection of the broad route corridor to the south of Newport (compared to alternative route options); and
- The selection of the design options included within the draft Statutory Orders (compared to alternative design solutions at locations along the route).

The development of the Scheme has considered a 'Do -Minimum' scenario, meaning doing nothing above what is already planned or committed. Consideration of 'Do -Nothing' or 'Do-Minimum' options confirmed that there is a strong need to do something to address identified problems associated with the M4 around Newport.

Taking into account the previous assessment work, the Welsh Government identified a new section of motorway to the south of Newport (known at that time as the 'Black Route'), together with Complementary Measures, as its draft Plan in September 2013. The draft Plan identified two reasonable alternatives to this option: the 'Red Route' and the 'Purple Route'.

The Red Route was a non-motorway (dual carriageway) option. Assessment identified that this option did not perform as strongly as the two motorway options, with significantly reduced capacity and would attract less traffic from the M4. The conclusion was that, provided that funding could be made available to deliver it as a single project, a motorway solution would offer greater value for money and better meet the objectives for the M4 Corridor around Newport.



Dewisiadau amgen a ystyriwyd yn y Cynllun drafft

Cynigiai'r Llwybr Porffor lwybr amgen ar gyfer rhan newydd o draffordd. Fodd bynnag, daeth asesiadau i'r casgliad bod y Llwybr Du wedi perfformio'n well na'r Llwybr Porffor. Ystyriwyd nifer o ffactorau, gan gynnwys y pellter a deithir, amseroedd teithio, agosrwydd at ardal breswyl Dyffryn a'r effeithiau ar Ddociau Casnewydd ac Afon Wysg. Gan ystyried y cyfyngiadau a nodwyd, ymatebion i'r ymgynghoriad ac effeithiau tebygol yr opsiynau a ystyriwyd, dewiswyd y Llwybr Du fel y coridor llwybr a ffeirir.

Awgrymwyd dewisiadau amgen ychwanegol yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch y Cynllun drafft, gan gynnwys mesurau trafniadaeth gyhoeddus, gwelliannau i ffyrdd presennol, twnnel o dan Afon Wysg, aliniadau amgen ac yr opsiwn o weithio ar yr A48 a'r A4810 presennol sef y 'Llwybr Glas'. Mae dewisiadau amgen a awgrymwyd wedi'u harfarnu ac, ar sail y canlyniadau, daethpwyd i'r casgliad na allai'r un o'r dewisiadau amgen a gyflwynwyd gyflawni'r amcanion ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd na mynd i'r afael â'r problemau a geir yno, yn ddigonol.

Alternatives considered in the draft Plan

The Purple Route offered an alternative route for a new section of motorway. However, assessments concluded that the Black Route performed more strongly than the Purple Route. A range of factors were considered, including distance travelled, journey times, proximity to the residential area of Duffryn and impacts on Newport Docks and the River Usk. Taking into account the constraints identified, consultation responses and the likely effects of the options considered, the Black Route was selected as the preferred route corridor.

Additional alternatives were suggested during the draft Plan consultation, including public transport measures, improvements to existing roads, a tunnel under the River Usk, alternative alignments and the option of works to the existing A48 and A4810 known as the 'Blue Route'. Suggested alternatives have been subject to appraisal, and the results have concluded that none of the alternatives submitted could sufficiently meet the objectives or address the problems for the M4 around Newport.

Ym Medi 2014 cyflwynodd Cyfeillion y Ddaear gais am Adolygiad Barnwrol, gan herio'r penderfyniad i fabwysiadu'r Cynllun. Heriwyd fod Llywodraeth Cymru, wrth fabwysiadu ei Chynllun, wedi methu â nodi, disgrifio a gwerthuso'r holl ddewisiadau amgen rhesymol (ac, yn benodol, ddewisiadau amgen nad oeddent yn cynnwys adeiladu traffordd ar draws y safleoedd gwarchodedig) yn briodol fel y gellid eu cymharu â'r Cynllun. Gwrandawyd y cais rhwng 10 a 12 Mawrth 2015 gan Mr Ustus Hickinbottom a gadarnhaodd, wrth wneud ei ddyfarniad, y canlynol. "In this case, matters were, in the event, clear cut: other than the draft Plan and the alternatives assessed in the 2013 SEA Report, none of the options considered came anywhere near meeting the objectives" a bod y penderfyniad a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar sail y dystiolaeth ger ei bron, "not only rational but all but inevitable".

A Judicial Review claim was brought in September 2014 by Friends of the Earth Cymru, challenging the adoption of the Plan. They challenged that in adopting its Plan the Welsh Government failed properly to identify, describe and evaluate all reasonable alternatives (and particularly alternatives that did not involve a motorway being constructed across the protected sites) on a comparable basis to the Plan. The claim was heard between 10th and 12th March 2015 by Mr Justice Hickinbottom, who in making his judgement confirmed that "In this case, matters were, in the event, clear cut: other than the draft Plan and the alternatives assessed in the 2013 SEA Report, none of the options considered came anywhere near meeting the objectives" and that the Welsh Government's decision making was, on the basis of the evidence before them, "not only rational but all but inevitable".




A4810 presennol

Existing A4810

Ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflogi contractwr ac ymgynghorydd sydd wedi datblygu'r cynigion gan ystyried gwahanol ddyletswyddau Llywodraeth Cymru gan gynnwys y rhai o dan Adran 28G o'r Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad, Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Hawliau Dynol 1998. Ymhlith materion eraill a ystyriwyd wrth ddatblygu'r cynigion mae cyfyngiadau presennol a nodweddion amgylcheddol, ynghyd â chanfyddiadau gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Following adoption of the Plan, the Welsh Government has employed a contractor and a consultant who have developed the proposals taking into account the Welsh Government's various duties including those under Section 28G of the Wildlife and Countryside Act, the Wellbeing and Future Generations Act 2015 and the Human Rights Act 1998. Other matters taken into account during the development of the proposals include existing constraints and environmental features, together with the findings of consultation and stakeholder engagement.



Disgrifiad o'r Cynllun

Ystyrir mai cynigion y Cynllun yw'r ateb mwyaf priodol i fynd i'r afael â'r problemau ar draffordd bresennol yr M4 o amgylch Casnewydd, wedi'u mesur yn erbyn y nodau a'r amcanion.

Llwybr

Byddai'r 23km o draffordd tair lôn i'r de o Gasnewydd, gan groesi Gwastadeddau Gwent, Afon Wysg, Dociau Casnewydd, safle Gwaith Dur Llanwern ac yn agos at safle tirlenwi Docks Way. Er mwyn croesi Afon Wysg câi ei chodi ar draphontydd dynesu a phont ceblau.

Lle bo'n rhesymol bosibl, mae'r llwybr yn mynd drwy dir llwyd, tir halogedig, neu ardaloedd drws nesaf i'r tir datblygu. Bydd y llwybr yn gwneud y canlynol:

- Lleihau gofynion tir a all gynnwys dymchwel eiddo;
- Lleihau'r defnydd o dir ar Wastadeddau Gwent, sy'n ardal warchodedig neu'n SoDdGA;
- Lleihau'r effaith ar Safle Tirlenwi Docks Way, gan leihau'r risg o broblemau red;
- Lleihau'r effaith ar Ddociau Casnewydd;
- Lleihau'r effaith ar gyfleustodau, a fyddai'n lleihau costau, peryglon ac amharu ar gyflenwadau.

Description of the Scheme


The Scheme proposals are considered to represent the most appropriate solution to address the problems on the existing M4 around Newport, measured against the aims and objectives.

Route

The 23km route of 3-lane motorway would pass south of Newport, crossing the Gwent Levels, River Usk, Newport Docks, the Llanwern Steelworks site and close to the Docks Way landfill site. To cross the River Usk it would be raised on approach viaducts and a cable stayed bridge.

Wherever reasonably possible the route goes through brownfield land, contaminated land, or areas next to development land. The route:

- Minimises land requirements that may include property demolition;
- Minimises land take from the Gwent Levels, which are protected areas or SSSIs;
- Minimises impact on the Docks Way Landfill Site, reducing risk of pollution problems;
- Minimises impacts on Newport Docks; and
- Minimises impact on utilities, which would reduce costs, hazards and disruption to supply.



Trawsdoriad nodweddiadol o'r draffordd arfaethedig

Typical cross-section of the proposed motorway

Ailddosbarthu'r draffordd bresennol

Byddai ailddosbarthu llwybr presennol yr M4 o amgylch Casnewydd fel cefnffordd, neu ffordd 'A', yn ein galluogi i gyflwyno newidiadau er mwyn rheoli traffig, sicrhau diogelwch a rhoi trefniadau mynediad diwygiedig ar waith, fel ailagor y gyffordd yng Nghaerllion. Byddai'r ffordd rhwng Cyffyrdd 23 (Magwyr) a 26 (Malpas) bellach yn ffordd ddeuol â dwy lôn.

Byddai'r broses ailddosbarthu yn cynnwys gwaith i ailagor ffyrdd ymuno ac ymadael Cyffordd 25 (Caerllion) tua'r gorllewin, gan wella mynediad i Gaerllion a Sain Silian. Byddai hyn yn gwella hygyrchedd i Gaerllion a Sain Silian ar hyd ochr ogleddol Casnewydd.

Byddai'r Terfyn Cyflymder Newidiol presennol hyd at 70mya yn parhau'n weithredol ar hyd llwybr presennol yr M4 rhwng Cyffordd 24 (Coldra) a Chyffordd 28 (Tredegar), ond gyda therfyn cyflymder uchaf o 60 milltir yr awr wrth Dwneli Brynlas.

Reclassification of the existing motorway

